# Cyngor Bro Morgannwg

# Fformiwla Ariannu Ysgolion Arbennig 2023/24

# Fformiwla Ariannu Ysgolion Arbennig Cyngor Bro Morgannwg

## Cynnwys


1. Cyflwyniad Tudalen 3
2. Niferoedd disgyblion Tudalen 4
3. Unedau disgyblion wedi'u pwysoli yn ôl band (BWPU) Tudalen 5
4. Cyllideb Ysgolion Tudalen 9
5. Cyllidebau Dirprwyedig Eraill Tudalen 9

# Fformiwla Ariannu Ysgolion Arbennig Cyngor Bro Morgannwg 2023/24

## 1. Cyflwyniad

Diwygiwyd fformiwla ariannu ysgolion arbennig Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18 ac mae'n cael ei hadolygu a'i diwygio gan Bennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Phennaeth Ysgol y Deri bob blwyddyn.

Lluniwyd y fformiwla hon yn unol â Chynllun Ariannu Teg Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer Ysgolion, Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 a Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Bydd y fformiwla hon yn cael ei hadolygu'n barhaus trwy gydol blwyddyn ariannol 2023/24 a bydd yn parhau'n eitem reolaidd ar raglen waith Fforwm y Gyllideb er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n berthnasol ac yn ymateb i newidiadau i'r arian a roddir gan lywodraeth ganolog.

Y dyraniad fformiwla ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 yw £15,850,159, er nad yw'r gyllideb hon ar gyfer yr ysgol arbennig yn gyfan gwbl ac mae'n cwmpasu nifer o feysydd a ddirprwyir i Ysgol y Deri i'w rheoli gan gynnwys Darpariaeth Derw Newydd (yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn flaenorol), ymgysylltu a gwasanaethau allgymorth i ysgolion prif ffrwd, y dosbarth Dysgu a Lles ar orbryder ynghylch adfer o Covid a nifer o ganolfannau adnoddau mewn ysgolion prif ffrwd.

Nodir cyfanswm y gyllideb a ddirprwywyd i Ysgol y Deri isod

- Cyllideb ysgol arbennig dirprwyedig (Y Deri) £12,419,476
- Derw Newydd (yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn flaenorol) £1,631,360
- Ymgysylltu ac allgymorth i brif ffrwd £ 699,407
- Dosbarth Dysgu a Lles ar Orbryder £ 273,600
- Canolfan adnoddau Gladstone £ 426,038
- Canolfan ymyrraeth gynnar (Sant Joseff) £ 221,700
- Canolfan adnoddau arbennig (Illtud Sant) £ 178,578

## 2. Niferoedd Disgyblion

Er mwyn sicrhau bod gan yr ysgol ddigon o arian i dalu am y niferoedd a dderbynnir ym mis Medi, mae'r arian a geir yn seiliedig ar gyfrifiad ar gyfer niferoedd disgyblion wedi'u haddasu.

Cyfrifir niferoedd disgyblion wedi'u haddasu fel y dangosir isod

- Nifer presennol ar y gofrestr * 5/12 (5 mis/12 mis)
- A’r nifer a amcanestynnir ym mis Medi * 7/12 (7 mis/12 mis)

Nodir y niferoedd disgyblion a gynhwysir yn fformiwla 2023/24 yn y tabl isod

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Disgyblion ar y gofrestr ym mis Ionawr 2023 (5/12 Ebrill - Awst) | 0 | 88 | 220 | 56 | 9 | 373 |
| Nifer amcangyfrifedig y disgyblion ym mis Medi 2023 (7/12 Medi - Mawrth) | 0 | 99 | 250 | 61 | 10 | 420 |
| **Cyfartaledd wedi'i bwysoli** | **0** | **94.4** | **237.5** | **58.9** | **9.6** | **400.4** |

## 3. Uned disgyblion wedi'u pwysoli yn ôl band (BWPU)

Dyrennir y fformiwla ariannu ysgolion arbennig yn bennaf yn seiliedig ar fandiau disgyblion sy'n dibynnu ar lefelau angen. Bob blwyddyn, bydd y Tîm Rheoli Gwaith Achos Cymhleth yn asesu'r niferoedd newydd a dderbynnir gyda staff ysgolion arbennig i sicrhau bod disgyblion yn y bandiau cywir. Dyrennir 73.5% o'r gyllideb drwy'r BWPU.

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyraniad Disgybl | £13,631.16 | £16,416,64 | £29,839.94 | £39,973.67 | £68,345.51 |

Mae'r tabl isod yn dangos y pwysoliad staffio a gymhwysir i'r BWPU

| | Cymhareb Addysgu | Cymhareb Cynorthwywyr Cymorth Dysgu | Cymhareb Staff Gyffredinol |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Band A** | 1: 10 | 1: 5 | 3: 10 |
| **Band B** | 1: 8 | 1: 4 | 3: 8 |
| **Band C** | 1: 5 | 3: 5 | 4: 5 |
| **Band D** | 1: 5 | 1: 1 | 6: 5 |
| **Band E** | 1: 4 | 2: 1 | 9: 4 |

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E |
|---|---|---|---|---|---|
| Athrawon | £5,880.97 | £7,351.22 | £11,761.95 | £11,761.95 | £14,702.43 |
| Cynorthwywyr Cymorth Dysgu | £4,905.00 | £6,131.25 | £14,715.00 | £24,525.00 | £49,050.00 |
| Cyflenwi Hirdymor | £302.01 | £377.51 | £741.35 | £1,016.03 | £1,785.07 |
| Mamolaeth | £53.93 | £67.41 | £132.38 | £181.43 | £318.76 |
| Therapyddion/ Nyrs/Therapydd Galwedigaethol | £824.25 | £824.25 | £824.25 | £824.25 | £824.25 |
| Adnoddau a | £1,665.00 | £1,665.00 | £1,665.00 | £1,665.00 | £1,665.00 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| thrafnidiaeth | | | | | |

Ceir disgrifiad o bob band yn y tabl isod

| Band | Disgrifiad |
|---|---|
| Band A | Bydd disgyblion Band A yn:<br>• Methu ag ymdopi mewn lleoliad prif ffrwd a bydd angen amgylchedd a chwricwlwm addasedig ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbennig arnynt<br>• Arddangos dim ymddygiad heriol<br>Hefyd gallai'r disgyblion fod<br>• ag anawsterau dysgu cymedrol ond â'r gallu i weithio'n annibynnol<br>• â phryderon lles isel<br>Ar gyfer disgyblion band A, bydd angen digon o staff i roi lefelau isel o gymorth er mwyn i'r disgyblion:<br>• Gael cyfnodau o ymyrraeth yn ystod y flwyddyn ysgol yn ôl yr angen<br>• Ymgysylltu â dysgu |
| Band B | Bydd disgyblion Band B:<br>• Ag anghenion synhwyraidd/cyfathrebu/dysgu cymedrol sy'n gofyn am leoliad dosbarth bach a chwricwlwm gwahaniaethol<br>• Yn arddangos, o bosibl, ymddygiadau lefel isel sy'n gysylltiedig ag anghenion a nodwyd yn unol â'r meini prawf derbyn<br>• Ag anghenion iechyd neu ofal personol lefel isel o bosibl<br>Bydd angen ar ddisgyblion band B gymorth achlysurol gan staff fydd yn:<br>• Atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol<br>• Eu cynorthwyo gyda gofal personol<br>• Eu helpu i gymryd rhan mewn rhaglenni therapi<br>• Eu helpu i fod yn bwyllog ac yn effro ac i ganolbwyntio i'r graddau sydd eu hangen i ymgysylltu â dysgu trwy gydol y dydd |
| Band C | Bydd disgyblion Band C:<br>• Ag anghenion synhwyraidd/cyfathrebu/dysgu difrifol sy'n gofyn am gymorth grŵp bach er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwahaniaethol yn yr ystafell ddosbarth |

| | |
|---|---|
| | • Ag anghenion dysgu sy'n gofyn am gyfnodau o integreiddio â chymorth i leoliad prif ffrwd<br>• Yn arddangos ymddygiad heriol yn anaml neu ymddygiad lefel is yn aml gan gynnwys peidio â chydymffurfio sy'n gysylltiedig ag anghenion a nodwyd yn unol â'r meini prawf derbyn<br>• Ag anghenion iechyd, corfforol neu ofal personol nad ydynt yn gymhleth<br>• Â phryderon a nodwyd sy'n ymwneud ag iechyd meddwl neu les (Gorbryder/dicter/hunan-barch)<br>Bydd angen ar ddisgyblion band C gymorth grŵp bach a/neu gymorth unigol rheolaidd gan staff fydd yn:<br>• Atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol<br>• Bodloni eu hanghenion gofal personol, hyfforddiant toiled, bwydo, lleoli a chodi a chario a chymorth i ddatblygu annibyniaeth<br>• Eu helpu i weld therapyddion ac i gymryd rhan mewn rhaglenni therapi (Therapydd Galwedigaethol/Ffisio/Therapydd Lleferydd ac Iaith/cerddoriaeth) yn yr ystafell ddosbarth neu'r tu allan iddi<br>• Eu helpu i fanteisio ar ymyriadau gan gynnwys Anogwr Dysgu/Cynorthwy-ydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol/Grwp Anogaeth/Launchpad<br>• Sicrhau eu bod yn gallu bod yn bwyllog, yn effro a chanolbwyntio i'r graddau sydd eu hangen i ymgysylltu â dysgu trwy gydol y dydd<br>• Hwyluso eu defnydd o systemau cyfathrebu cynyddol ac amgen (gan gynnwys PECS a Makaton)<br>• Addasu'r cwricwlwm a/neu strwythuro dysgu<br>• Eu helpu i integreiddio i leoliad prif ffrwd unwaith neu ddwywaith yr wythnos |
| Band D | Bydd disgyblion Band D:<br>• Yn arddangos ymddygiad heriol yn aml/rheolaidd sy'n gysylltiedig ag anghenion a nodwyd yn unol â'r meini prawf derbyn. Gall ymddygiadau gynnwys peryglu eu hunain neu eraill, risg bosibl o ffoi neu angen gormodol i reoli eu hamgylchedd.<br>• Yn ymgolledig ynddynt eu hunain o bosibl a gallai fod yn anodd ymgysylltu â nhw<br>• Ag anghenion corfforol neu feddygol cymhleth ac yn dibynnu'n llwyr ar |

| | |
|---|---|
| | bobl eraill i fodloni eu hanghenion neu i hwyluso mynediad i'r cwricwlwm<br>• Yn arddangos anawsterau iechyd meddwl o bosibl neu'n cael diagnosis o gyflwr iechyd meddwl a allai ofyn am gynllun gofal a thriniaeth<br>• Yn gwrthod mynychu'r ysgol o bosibl<br>• Ag anghenion dysgu o bosibl sy'n gofyn am gyfnodau rheolaidd o integreiddio â chymorth<br>Bydd angen ar ddisgyblion band D lawer o gymorth gan staff fydd yn:<br>• Gweithredu strategaethau ymddygiad cadarnhaol<br>• Bodloni eu hanghenion gofal personol cymhleth, bwydo, lleoli a chodi a chario<br>• Eu helpu i gael therapïau bob dydd (Therapydd Galwedigaethol/Ffisio/Therapydd Lleferydd ac Iaith/cerddoriaeth) yn yr ystafell ddosbarth neu'r tu allan iddi<br>• Eu helpu i fanteisio ar ymyriadau dyddiol<br>• Eu helpu i fod yn bwyllog ac yn effro fel sydd ei angen i ymgysylltu â dysgu<br>• Hwyluso eu defnydd o systemau cyfathrebu cynyddol ac amgen cymhleth<br>• Bodloni eu hanghenion iechyd cymhleth fel y nodwyd yn eu cynllun gofal<br>• Eu helpu i integreiddio i'r prif ffrwd sawl gwaith yr wythnos |
| Band E | Bydd disgyblion Band E yn:<br>• Arddangos ymddygiadau heriol difrifol, sy'n gysylltiedig ag anghenion a nodwyd yn unol â'r meini prawf derbyn, sy'n peri risg sylweddol iddynt hwy eu hunain neu i eraill yn yr ysgol neu'r gymuned<br>Bydd angen ar ddisgyblion Band E lefel uchel iawn o gymorth unigol dwys a phwrpasol gan staff fydd yn:<br>• Gweithredu strategaethau ymddygiad cadarnhaol yn ddwys<br>• Eu helpu i fanteisio ar ymyriadau/therapïau/cwricwlwm amgen a geir y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn aml |

## 4. Cyllideb yr Ysgol

Yn ogystal â'r unedau disgyblion sydd wedi'u pwysoli yn ôl band, mae nifer o ddyraniadau cyfandaliadau o fewn y fformiwla a nodir yn y tabl isod:

| | Dyraniad | Nodiadau |
|---|---:|---|
| Arweinyddiaeth | £243,844 | Cyfraniad tuag at strwythur arweinyddiaeth |
| Gweinyddu | £255,220 | Gan gynnwys adolygiad staff blynyddol |
| Gofalwyr | £58,113 | |
| Cyfleustodau | £140,384 | |
| Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw Adeiladau a Thiroedd | £144,298 | |
| Glanhau, Sbwriel ac Ailgylchu | £163,198 | |
| Cytundebau lefel gwasanaeth canolog | £16,749 | Yn cynnwys AD, y Gyflogres, Credydwyr, RhYLI, Eteach, GDG, TGCh a ffioedd trwyddedau |
| Arlwyo (prydau ysgol am ddim) | £99,009 | £2.70 *190 diwrnod y disgybl sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim |
| Unedau Disgyblion wedi'u Pwysoli yn ôl Band | £11,647,084 | Cyfanswm yr arian fesul disgybl |
| Arbedion Effeithlonrwydd | -£348,422 | Gweler y nodyn isod. |
| **Cyfanswm Cyllideb Ysgol** | **£12,419,476** | |

Arbedion Effeithlonrwydd – mae'r cyngor wedi dyrannu £2.75M o arbedion effeithlonrwydd i ysgolion ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, sydd wedi'u dosbarthu i'r sector prif ffrwd ac arbennig yn seiliedig ar gyllideb 2022/23.

5. **Cyllidebau Dirprwyedig Eraill**

Mae chwe chyllideb arall wedi'u dirprwyo i ysgolion arbennig fel y nodir yn y tabl isod.

| | **Dyraniad** |
|---|---|
| Darpariaeth Derw Newydd (yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn flaenorol) | £1,631,360 |
| Tîm Ymgysylltu a darpariaeth Allgymorth i ysgolion prif ffrwd | £699,407 |
| Canolfan Adnoddau Gladstone | £426,038 |
| Canolfan Ymyrraeth Gynnar | £221,700 |
| Canolfan Adnoddau Illtud Sant | £178,578 |
| Dosbarth Dysgu a Lles ar Orbryder | £273,600 |